# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Robert G Parry OBE FRgS (Chair)<br>Mr J Arwel Roberts (Vice-Chair)<br><br>Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones a Bryan Owen |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri Carwyn Jones, Alun Roberts a Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr T Ll Hughes MBE – Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr Richard O Jones – Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Mr Richard Griffiths – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2018/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr R Meirion Jones – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2018/19 – Band Biwmares, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Richard O Jones – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2018/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Bryan Owen – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2018/19 – Tudur Cyf., a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

### 2 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018 eu cadarnhau.

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.**

## 4 CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd bod 34 o geisiadau wedi dod i law a'u bod wedi eu hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018. Lluniodd y Pwyllgor restr fer o 15 o geisiadau grant a oedd angen eu hasesu mewn mwy o fanylder ac a oedd angen mwy o wybodaeth arnynt mewn perthynas â'r cais. Nodwyd bod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017, wedi penderfynu argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn y dylid rhyddhau £350k i ariannu grantiau mawr yn 2018. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn yr argymhelliad yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r 15 cais ar y rhestr fer ac fe **BENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Ebrill, 2018 :-**

- **Bod 14 o'r ceisiadau grant a gafodd eu rhoi ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi gyda 12 yn derbyn y swm y gofynnwyd amdano a 2 yn derbyn swm llai na'r hyn y gofynnwyd amdano;**
- **Bod 1 o'r 15 cais a roddwyd ar y rhestr fer yn aflwyddiannus;**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn gyda'r symiau a argymhellir fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio.**

**Cynghorydd Robert G Parry OBE FRgS**
**Cadeirydd**